# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-01-08)

**Dyddiad: 15 Ionawr 2008**
**Amser : 8.15am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
### Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.
### Eitem 2.1: Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)

**SLC90 - Gorchymyn Bwrdd Ardollau Cymru 2008** Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'i gwnaed ar 19 Chwefror 2008. Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1. Mae'r Gorchymyn hwn yn creu corff newydd, Bwrdd Ardollau Cymru ("y Bwrdd") sydd â swyddogaethau a dyletswyddau yn ymwneud â'r diwydiannau cig eidion, cig defaid a chig moch yng Nghymru. Mae'r Gorchymyn yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cyfansoddiad a thrafodion y Bwrdd. Eitem 2.2: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) **SLC85 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2007** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 1 Rhagfyr 2007. Fe'u gosodwyd ar 3 Rhagfyr 2007. Yn dod i rym ar 15 Ionawr 2008. - yn darparu ar gyfer cynnwys yr hysbysiadau galw am dalu, a ddyroddir gan awdurdodau bilio yng Nghymru, ac ar gyfer yr wybodaeth sydd i'w rhoi pan maent yn cyflwyno hysbysiadau o'r fath. **SLC98 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2008** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 7 Ionawr 2008. Fe'u gosodwyd ar 8 Ionawr 2008. Yn dod i rym ar 2 Chwefror 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu)(Cymru) 1993.

**SLC86 - Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) (Diwygio) 2007** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 4 Rhagfyr 2007. Fe'u gosodwyd ar 5 Rhagfyr 2007. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2007. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995 fel bod nifer aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn codi o 15 i 18. **SLC88 - Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) (Rhif 2) 2007** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 5 Rhagfyr 2007. Fe'u gosodwyd ar 10 Rhagfyr 2007. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2007. - yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi mewn perthynas â Chymru Erthyglau 25 a 27 o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol i sicrhau bod cydymffurfedd â'r gyfraith ynglŷn â bwyd anifeiliaid a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid yn cael ei wirhau **SLC89 - Rheoliadau Cynhyrchion Pysgodfeydd (Taliadau Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2007** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 5 Rhagfyr 2007. Fe'u gosodwyd ar 10 Rhagfyr 2007. Yn dod i rym ar 1 Ionawr 2008. - yn darparu pwerau i awdurdodau bwyd lleol adennill costau penodol oddi wrth y diwydiant pysgota o ran y samplu, profi ac archwilio swyddogol ar laniadau uniongyrchol o bysgod a chynhyrchion pysgodfeydd penodol. **SLC91 - Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Cymru) 2007** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 12 Rhagfyr 2007. Fe'u gosodwyd ar 13 Rhagfyr 2007. Yn dod i rym ar 10 Ionawr 2008. -dileu rhwymedigaeth benthyciwr i ad-dalu ei fenthyciad i fyfyriwr os bydd farw'r benthyciwr, os bydd y benthyciwr yn cyrraedd 65 oed, neu os bydd y benthyciwr yn derbyn budd-dal ar sail anabledd a'i fod, o ganlyniad i'r anabledd, yn an-ffit yn barhaol i weithio. **SLC96 - Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2007** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 17 Rhagfyr 2007. Fe'u gosodwyd ar 20 Rhagfyr 2007. Yn dod i rym ar 14 Ionawr 2008. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân newidiadau i Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Berfformiad Ysgolion) (Cymru) 2004. **SLC97 - Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2007** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 18 Rhagfyr 2007. Fe'u gosodwyd ar 20 Rhagfyr 2007. Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1. - gweithredu cyfarwyddeb y Comisiwn 2006/141EC ar fformiwlâu babanod a fformiwlâu dilynol sy'n atgyfnerthu deddfwriaeth y gymuned sy'n bodoli ar gyfansoddiad, labelu a marchnata fformiwla fabanod a fformiwlâu dilynol ac sy'n gosod rheolau ar allforio fformiwlâu babanod a fformiwlâu dilynol i drydydd gwledydd.

### Eitem 3: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2
### Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

**SLC87 - The Export and Movement Restrictions (Foot-and-Mouth Disease) (No.2) (Wales) Regulations 2007** (Gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig) Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed am 6.05 p.m. ar 5 Rhagfyr 2007. Fe'u gosodwyd ar 6 Rhagfyr 2007. Yn dod i rym am 6.20 p.m. ar 5 Rhagfyr 2007. - yn gweithredu yng Nghymru Benderfyniad y Comisiwn a fabwysiadwyd ar 5 Rhagfyr sy'n diwygio ymhellach Benderfyniadau'r Comisiwn 2007/746/EC, 2007/709/EC, a 2007/554/EC. Prif effaith y Rheoliadau fydd ehangu'r Ardal Allforio sy'n rhydd o Glwy'r Traed a'r Genau a llacio rhai o'r cyfyngiadau ar symud anifeiliaid a all fod yn dioddef o Glwy'r Traed a'r Genau a chynnyrch yr anifeiliaid hynny. Gwnaed y Rheoliadau a daethant i rym ar 5 Rhagfyr 2007 ar yr amseroedd a nodir yn y Rheoliadau. Bydd Rheoliadau 5 i 9 (sy'n ymwneud ag allforio cig, cynhyrchion cig a llaeth) a Rheoliadau 11 i 14 (sy'n ymwneud ag allforio crwyn, cynhyrchion anifeiliaid, esemptiadau ac arnodi dogfennau) yn peidio â bod yn effeithiol ar 15 Rhagfyr 2007; bydd gweddill y Rheoliadau'n peidio â bod yn effeithiol ar 31 Rhagfyr 2007. Caiff The Export and Movement Restrictions (Foot and Mouth Disease) (Wales) Regulations 2007 eu dirymu. **SLC92 - The Export Restrictions (Foot-and-Mouth Disease) (Wales) Regulations 2007**(Gwnaed y Rheoliadau yn Saesneg yn unig) Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed am 6.20 p.m. ar 13 Rhagfyr 2007. Fe'u gosodwyd

ar 14 Rhagfyr 2007. Yn dod i rym am 6.30 p.m. ar 13 Rhagfyr 2007. - yn codi'r gwaharddiadau ar allforio anifeiliaid a all fod yn dioddef o Glwy'r Traed a'r Genau yng Nghymru. **SLC94 - Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 17 Rhagfyr 2007. Fe'u gosodwyd ar 20 Rhagfyr 2007. Yn dod i rym ar 14 Ionawr 2008. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2003 a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Personau Rhagnodedig) (Cymru) 2004 ac yn eu hailddeddfu'n sylweddol fel y'u diwygiwyd. **SLC95 - Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) (Diwygio) 2007** Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 17 Rhagfyr 2007. Fe'u gosodwyd ar 20 Rhagfyr 2007. Yn dod i rym ar 14 Ionawr 2008. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân newidiadau i Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004").

**Eitem 4: Unrhyw fater arall**
**Eitem 5: Dyddiad y cyfarfod nesaf**